Lwans Cynhaliaeth Addysg
Education Maintenance Allowance

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

# Cyflwyniad i LCA

# (Lwfans Cynhaliaeth Addysg)

*Mae'r holl wybodaeth yn seiliedig ar flwyddyn academaidd 26/27 a gall fod yn destun i newid yn y blynyddoedd dyfodol

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca
www.studentfinancewales.co.uk/ema

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Lwans Cynhaliaeth Addysg
Education Maintenance Allowance

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

# LCA

- Beth yw LCA?
- A ddylwn i wneud cais?
- Faint fydd modd i mi ei gael?
- Sut mae modd i chi wneud cais?
- Beth fydd yn digwydd nesaf?
- Dyddiadau allweddol

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca
www.studentfinancewales.co.uk/ema

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Lwans Cynhaliaeth Addysg
Education Maintenance Allowance

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

# Beth yw LCA?

- Mae’r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) yn daliad wythnosol o £40 i helpu rhai 16-18 oed i helpu gyda chostau addysg bellach.
- Gwneir taliadau pob pythefnos cyn belled â’ch bod yn bodloni meini prawf presenoldeb eich ysgol neu coleg.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Lwans Cynhaliaeth Addysg
Education Maintenance Allowance

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

# A ddylwn i wneud cais?

Gallech gael LCA os bydd y canlynol yn berthnasol i chi:

- rydych yn byw yng Nghymru
- byddwch rhwng 16 a 18 oed ar 31 Awst 2026.
- rydych yn bodloni ein rheolau ynghylch cenedligrwydd a manylion preswylio
- rydych yn mynychu ysgol neu goleg cymwys yn y DU Rhaid i hyn fod yn amser llawn yn yr ysgol neu goleg, am o leiaf 12 awr yr wythnos, ac yn astudio ar gwrs cymwys.
- mae incwm eich cartref yn £24,570 neu'n is a chi yw'r unig berson sy'n astudio dan drefniant amser llawn yn eich cartref
- neu
- mae incwm eich cartref yn £27,273 neu'n is ac mae pobl ifanc eraill yn eich cartref sy'n gymwys i gael Budd-dal Plant.

Lwans Cynhaliaeth Addysg
Education Maintenance Allowance

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

# Faint fydd modd i mi ei gael?

## Faint fydd modd i mi ei gael?

Gallech gael hyd at £40 yr wythnos, yn ddibynnol ar incwm eich cartref. Byddwn yn gofyn am fanylion yr incwm hwn pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen.

| Incwm blynyddol y cartref | Nifer dibynyddion yn y cartref (ar wahân i chi) | Hawl LCA wythnosol |
|---|---|---|
| £0 – £ 24,570 | 0 | £40 |
| £0 – £27,273 | 1+ | £40 |
| £24,571 ac uwch | 0 | £0 |

**Os yw incwm eich cartref yn £27,274 neu'n fwy, ni fyddwch yn gymwys i gael LCA.**

**Os yw fy mab/merch yn cael LCA, a fydd hyn yn effeithio ar fy mudddaliadau?**
**Ni fydd LCA yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau a delir i'ch cartref ar hyn o bryd.**

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca
www.studentfinancewales.co.uk/ema

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Lwans Cynhaliaeth Addysg
Education Maintenance Allowance

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

# Sut mae modd i chi wneud cais?

- Edrychwch ar ein gwefan am yr holl ddiweddariadau am wneud cais am LCA yn: www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca neu sganiwch y cod QR

**Ymgeisiwch nawr**

Sganiwch y cod QR i ymgeisio nawr! Gallwch hefyd ymgeisio ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca**

- Gallwch wneud cais cyn i chi gael eich canlyniadau TGAU neu cyn i chi benderfynu ble i astudio.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Lwans Cynhaliaeth Addysg
Education Maintenance Allowance

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd angen i chi lenwi a dychwelyd eich ffurflen gais LCA gyda'r dystiolaeth y bydd angen i ni ei chael.
Dysgwch fwy yn:
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca**

→ Os na fydd modd i chi anfon y dystiolaeth y bydd angen i ni ei chael yn syth, dylech ddychwelyd eich ffurflen hebddi. Byddwn yn cysylltu â chi i gael y dystiolaeth.

↓

Byddwn yn asesu eich cais ac yn anfon Llythyr Dyfarniad atoch

→ Os bydd angen gwybodaeth neu dystiolaeth bellach arnom i gwblhau ein hasesiad, byddwn yn cysylltu â chi cyn i chi gael eich Llythyr Dyfarniad.

↓

Rhaid i chi lofnodi eich Cytundeb LCA gyda'ch ysgol neu goleg

→ **Beth yw Cytundeb LCA?**
Cytundeb yw hwn rhyngoch chi a'ch ysgol neu'ch coleg. Mae'n nodi manylion yr amcanion ymddygiad a phresenoldeb angenrheidiol er mwyn bod yn gymwys i gael LCA.

↓

Bydd angen i'ch ysgol neu'ch coleg ddweud wrthym eich bod wedi bod yn mynychu

↓

Byddwn yn talu eich LCA i mewn i'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca
www.studentfinancewales.co.uk/ema

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Lwans Cynhaliaeth Addysg
Education Maintenance Allowance

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

# Dyddiadau allweddol

Dyddiadau allweddol

- Mehefin 2026 – i sicrhau bod eich cais LCA yn cael ei asesu ac yn barod ar gyfer dechrau'r tymor, anfonwch eich ffurflen wedi ei chwblhau yn ôl atom, gyda'r holl dystiolaeth briodol, erbyn Mehefin 2026.

- 13 wythnos ar ôl y dyddiad pan fydd y cwrs yn cychwyn – er mwyn cael eich ystyried am daliadau ôl-ddyddiedig, rhaid eich bod yn gwneud cais cyn pen 13 wythnos o'r dyddiad pan fydd eich cwrs yn cychwyn.

- 31 Awst 2027 – dyma'r dyddiad terfynol y gallwn dderbyn cais gennych chi i fod yn gymwys ar gyfer LCA yn 2026/27. Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen a'i hanfon atom, byddwn yn asesu'ch cais ac yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi a ydych yn gymwys i gael LCA